STRATEGAETH
RHIANTA CORFFORAETHOL
(2009-2011)

“Gwella profiad plant mewn gofal a hyrwyddo eu canlyniadau”

Rhagair

Rydym yn falch o groesawu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol i helpu i ddatblygu a chynnal y dyfodol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc sydd mewn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal. Rydym yn hyderus bod y strategaeth hon yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gymryd cyfrifoldeb corfforaethol am wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Sir Ddinbych.

Bydd pobl ifanc a'r rhai sy'n ymadael â gofal yn wynebu nifer o sialensiau wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth. Er mwyn gwneud eu cyfnod pontio tuag at annibyniaeth mor llyfr ag sydd bosib ac i sicrhau eu bod yn mynd ymlaen i gyflawni eu potensial llawn yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y bobl ifanc hyn yn derbyn help a chefnogaeth. Mae'r strategaeth hon felly'n amlinellu ein dyheadau allweddol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn ac yn gosod allan yn glir y camau y bwriadwn eu cymryd i gyflawni'r dyheadau hyn.

Mae'r strategaeth hon yn darparu'r fframwaith i holl swyddogion, rheolwyr a Chynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Er mwyn cadarnhau ein hymrwymiad i rianta corfforaethol mae Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r Datganiad Rhianta Corfforaethol canlynol

Yn Sir Ddinbych, credwn mai sicrhau gofal a diogelwch effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yw un o'r cyfrifoldebau pwysicaf sydd gan Gynghorwyr, swyddogion ac asiantaethau proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd, mae'n rhaid i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i gyfarfod â'u hanghenion.

Hugh Evans
Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych

Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Morfudd Jones
Aelod Arweiniol – Plant a Theuluoedd

Sally Ellis
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Cynnwys

		Tudalen
Adran 1	**Cyflwyniad a Chefndir**	**4**
1.1	Rhianta Corfforaethol	4
1.2	Plant sy'n Derbyn Gofal a rhai sy'n Ymadael â Gofal	4
1.3	Fframwaith Cyfreithiol a Pholisi	5
Adran 2	**Nodau ac Amcanion y Strategaeth**	**7**
2.1	Datganiad Rhianta Corfforaethol	7
2.2	Nodau ac Amcanion	8
2.3	Yr hyn y bydd ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn ymdrechu i'w gyflawni ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mewn gofal	
2.4	Egwyddorion	8
Adran 3	**Gwella Canlyniadau**	**9**
3.1	Hyrwyddo Addysg a Chyfleoedd Cyflogaeth	9
3.2	Annog Cyfranogiad, Diddordebau Cymdeithasol a Hamdden	10
3.3	Darparu Cartref Diogel	11
Adran 4	**Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**	**13**
4.1	Rôl y Rhiant Corfforaethol	13
4.2	Rôl yr Aelod Etholedig fel Rhiant Corfforaethol	13
4.3	Fforwm Rhianta Corfforaethol Aelodau Etholedig	14
4.4	Disgwyliadau Swyddogion y Cyngor Sir	14
4.5	Gweithgor Rhianta Corfforaethol	17
Adran 5	**Cynllunio a Datblygiadau'r Dyfodol (Cynlluniau Gweithredu)**	**18**
5.1	Rhaglen Gweithgor Rhianta Corfforaethol (2008/10)	

Adran 1: Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Rhianta Corfforaethol

Rhianta Corfforaethol- yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at gydgyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu'r gofal a'r diogelwch gorau posib i blant a phobl ifanc sy'n "derbyn gofal", hynny yw, y rhein y sydd mewn gofal cyhoeddus.

Unwaith y bydd plentyn mewn gofal, mae angen i holl Aelodau a swyddogion y Cyngor, fel eu rhieni corfforaethol, ymorol am y plentyn fel pe bai'n blentyn iddyn nhw eu hunain. Dylai'r gofal hwn gwmpasu eu haddysg, iechyd a lles, yr hyn a wnant yn eu hamser hamdden, y ffordd y maent yn dathlu eu diwylliant a'r fordd y cânt eu canmol a'u hannog gyda'u cyflawniadau.

Egwyddor ganolog rhianta corfforaethol yw bod yr holl Gynghorwyr a'r staff a gyflogir gan y Cyngor yn ymdrechu i gyflawni a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, fel eu bod yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd sydd ar gael ac yn cyrraedd eu potensial llawn, fel y gwnaent gyda'u plentyn/plant eu hunain. Gall hyn fod ar lefel ymarferol i unigolion sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant, neu ar lefel strategol i'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

1.2 Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Ymdadael â Gofal

Plant sy'n Derbyn Gofal – plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol drwy orchymyn gofal a wneir gan lys neu drwy gytundeb gyda'u rhiant/rhieni, boed hynny mewn cartref preswyl, gydag aelodau eraill o'u teulu estynedig neu gyda gofalwyr maeth. Dyma'r plant y mae'r cyngor yn riant corfforaethol iddyn nhw a'r plant sy'n brif destun y cyhoeddiad hwn.

Rhai sy'n ymadael â gofal – pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal gan yr awdurdod ac y mae'r awdurdod â dyletswydd i gadw cysylltiad â nhw ac i'w cefnogi pan fyddant yn ymadael â gofal. Mae'r cyfrifoldeb yn parhau hyd nes bydd y plentyn yn 21 oed neu wedi hynny os byddant yn dal mewn addysg neu hyfforddiant.

D

Gall plant a phobl ifanc dderbyn gofal yr awdurdod lleol am nifer o resymau'n cynnwys:

- cam-drin corfforol neu rywiol neu esgeulustod;
- anawsterau a phwysau rhianta sy'n golygu na all rhiant/rhieni biolegol y plentyn/plant ddarparu gofal a llety priodol i gyfarfod â'u hanghenion;
- gwaeledd neu farwolaeth rhiant/rhieni;
- caledi teuluol;
- cynnwrf neu rwyg teuluol

Gall plant neu bobl ifanc dderbyn gofal am gyfnod byr, un ai'n dychwelyd at eu teuluoedd neu symud i drefniadau parhaol fel mabwysiadu; ond i eraill, byddant yn aros mewn gofal am gyfnod hir gyda gofalwyr maeth fel rheol.

Y sefyllfa yn Sir Ddinbych

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal (ac eithrio'r rheiny sydd mewn gofal seibiant) fel ar Ebrill 31 2009

Ystadegau	**Ebrill 2009**
Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal	139
Cenedl	
Gwryw	88
Benyw	51
Grwpiau Oed	
Dan 5	34
5 i dan 12	41
12 i dan 16	36
16 +	28
Lleoliad	
Nifer y plant mewn lleoliad maeth yn Sir Ddinbych	64
Nifer y plant mewn lleoliad maeth y tu allan i Sir Ddinbych	19
Nifer y plant sydd wedi eu lleoli â rhieni	26
Nifer y plant sydd wedi eu lleoli ar gyfer mabwysiadu	4
Nifer y plant mewn gofal preswyl yn Sir Ddinbych	10
Nifer y plant mewn gofal preswyl y tu allan i Sir Ddinbych	11

Tra bo Cymru wedi profi cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn blynyddoedd diweddar mae'r tueddiad yn Sir Ddinbych wedi bod yn groes i hynny gyda lleihad nodedig yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y 5 mlynedd diwethaf. Buom yn llwyddiannus yn lleihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal drwy nifer o fentrau sy'n cynnwys darpariaeth pecynnau cymunedol gwell o ofal cymdeithasol, cefnogaeth deuluol a chefnogaeth addysgol. Rhwng Mawrth 31 2005 a Mawrth 31 2009 fe ostyngodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych o 145 i 139 gydag amrywiad dros a than 139 yn ystod y cyfnod hwn.

1.3 Fframwaith Cyfreithiol a Pholisi

Rhoddwyd y cyfrifoldeb am rianta corfforaethol ar awdurdodau lleol yn Neddf Plant 1989 ac fe'i hailadroddwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005 "Pe bai'n blentyn i mi" ar gyfer Cynghorwyr a oedd yn pwysleisio rôl Cynghorwyr i sicrhau bod eu Cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol i bob plentyn mewn gofal.

Mae Adran 27 Deddf Plant 1989 yn rhoi dyletswydd ar y GIG yn ogystal â gwasanaethau tai ac addysg pob awdurdod lleol i gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol i ymgymryd â'u swyddogaethau dan y Ddeddf o ran darparu help, cefnogaeth a gwasanaethau - mae hyn yn cynnwys cynorthwyo yn eu swyddogaeth o rianta corfforaethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod anghenion holistig ac anghenion ehangach plant a phobl ifanc a phwysleisio bod arnynt angen cymorth pob

gwasanaeth sydd ar gael os ydynt am gyflawni eu potensial llawn a byw bywydau iach, llewyrchus a llwyddiannus. Mae gan bob un o'r gwasanaethau hamdden, llyfrgell ac ieuenctid swyddogaeth allweddol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal drwy ddarparu cyfleoedd i gyfranogi, dysgu, gwella eu hunan-barch a'u lles. Dylai polisïau cludiant integredig ystyried anghenion plant a phobl ifanc hefyd i'w galluogi i gyrchu cyfleoedd a roddir ar gael iddyn nhw. Hefyd mae'n hanfodol bod adrannau'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol i ddarparu ystod mor eang ag sydd bosib o wasanaethau a chefnogaeth o fewn y cymunedau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi defnyddio ei bwerau gan Ddeddf Plant 2004 i wneud Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc presennol ym mhob ardal llywodraeth leol yn gyfrifol am gydlynu, cynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, fe bwysleisiodd Deddf Plant 2004 rôl trefniadau gwasanaeth cydweithiol i gyflawni'r gwasanaethau priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae rhaglenni allweddol eraill sy'n rheoli darpariaeth gwasanaethau plant yn cynnwys:

Deddfwriaeth	**Nodau/ Gofynion**
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989	Darparu fframwaith cyffredinol.
Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000	Ymestyn cyfrifoldebau'r awdurdod lleol i rai sy'n ymadael â gofal i'r rhai sydd hyd at 21 oed, ac mewn rhai amgylchiadau i 25 oed. Mae'n gofyn hefyd i awdurdodau lleol lunio cynllun llwybr, a darparu cymorth, i gynorthwyo rhai sy'n ymadael â gofal i annibyniaeth.
Deddf Safonau Gofal 2000	Sefydlu safonau cenedlaethol sylfaenol ar gyfer gofal mewn cartrefi preswyl, lleoliadau maethu a mabwysiadu ac wedi cyflwyno'r gofyniad i'r darparwyr lleoliad hyn gael eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y mae heddiw.
Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002	Wedi diwygio cyfraith mabwysiadu bresennol i sicrhau bod lles plant yn ganolog i bob penderfyniad. Roedd y Ddeddf hefyd yn ymestyn cyfrifoldeb gwasanaethau mabwysiadu i ddarparu cefnogaeth i rieni mabwysiadol a rhieni biolegol.
Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth 2004	Rhaglen 10 mlynedd gyda'r bwriad o gyflawni gwelliannau tymor hir mewn iechyd plant.

Adran 2: Nodau ac Amcanion y Strategaeth

2.1 Datganiad Rhianta Corfforaethol

Credwn, yn Sir Ddinbych, mai sicrhau gofal a diogelwch i blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yw un o'r cyfrifoldebau pwysicaf sydd gan Gynghorwyr, swyddogion ac asiantaethau proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd, mae'n rhaid i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i gyfarfod ag anghenin y grwp mwyaf agored i niwed.

Gwyddom fod ymchwil wedi dangos bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fod yn ddifreintiedig, yn enwedig o ran iechyd, tai ac addysg.

Fel "rhieni corfforaethol" mae'n rhaid i ni wella'r sefyllfa i blant sy'n derbyn gofal. Disgwylir i bob Adran weithio mewn partneriaeth gyda'r bobl hynny sydd â swyddogaethau allweddol ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc. Felly hefyd, rydym yn disgwyl gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal gyrchiad i'r gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael i blant eraill.

Ein hegwyddor yw codi safon y gofal a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, fel y gallant ddisgwyl gwneud cystal o leiaf â'u cyfoedion sy'n gallu aros gartref gyda rhieni gofalus a chariadus. Fe wnawn eu canmol pan fyddant yn gwneud yn dda a siarad o'u plaid os byddant mewn trwbl.

2.2 Nodau ac Amcanion

Nod cyffredinol y strategaeth yw gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal drwy ddatblygu a chyflenwi ystod holistig o wasanaethau.

Mae'r strategaeth yn amcanu i fwrw ymlaen, cefnogi a chryfhau ymagwedd Cyngor cyfan tuag at rianta corfforaethol. Bydd datblygu dealltwriaeth a rennir o'r hyn mae rhianta corfforaethol yn ei olygu i fywydau plant a phobl ifanc, yn galluogi'r awdurdod i greu diwylliant lle bydd yr holl staff yn meddwl yn reddfol am y gwahaniaeth y gallant ei wneud a bwrw newid gwirioneddol ymlaen i wella a hyrwyddo canlyniadau positif i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal.

Mae'r strategaeth yn amcanu hefyd i gyflawni a chefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal yn unol â'u cyfoedion.

2.3 Yr hyn y bydd ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn ymdrechu i'w gyflenwi i blant a phobl ifanc mewn gofal.



2.4 Egwyddorion

Er mwyn cyflawni'r nodau a'r dyheadau a osodir allan uchod mae'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych weithio i'r egwyddorion canlynol wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol:

- ystyried pob agwedd ar fywydau plant, nid dim ond y rhai hynny sydd wedi arwain at gyfnod o wahaniad o'u cartref;
- darparu plant sy'n derbyn gofal â gofal â chymorth, cyrchiad i ofal iechyd da ac addysg yn ôl eu hanghenion;
- annog plant sy'n derbyn gofal i gyfranogi i benderfyniadau a chyfrannu tuag at gynlluniau priodol ar gyfer eu bywydau, a bod y cynlluniau hyn yn cael eu cofnodi'n drwyadl ac yn cael eu gweithredu;
- mecanwaith ar gyfer ymgynghori a chyfranogiad yn cael eu hyrwyddo'n bositif ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal a bod y Cyngor yn gwrando'n actif ac yn ymateb i farn a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc yma;
- bod cyflawniadau a llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal yn cael eu cydnabod yn bositif a'u dathlu;
- hyrwyddo dilyniant ym mywydau plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau, neu lle bo hynny'n bosibl, ddileu amhariad;
- darparu pobl ifanc â help i ymadael â gofal a'u cynorthwyo tuag at annibyniaeth, gan gydnabod nad yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gadael cartref nes eu bod yn eu hugeiniau ac yna'n dychwelyd yn aml.

Adran 3: Gwella Canlyniadau

Mae gwaith y Fforwm Aelodau Etholedig a'r Gweithgor yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, tri ohonyn nhw ynglŷn â gwella'n uniongyrchol ganlyniadau penodol a chyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal. Mae'r adran hon yn nodi'r materion allweddol sy'n effeithio ar gyflawni canlyniadau positif o ran: addysg, cyflogaeth, tai, iechyd ac integreiddiad cymdeithasol. Mae'r rhaglenni gwaith a gynhwysir yn Adran 5 yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud o fewn Sir Ddinbych i helpu i ddelio â'r materion a nodir yn yr Adran hon.

3.1 Hyrwyddo Addysg a Chyfleoedd Cyflogaeth

Addysg

Mae yna dystiolaeth helaeth nad yw plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni cyraeddiadau addysgol eu cyfoedion ac maent yn llai tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn. Mae yna nifer o ffactorau sy'n cyfrannu tuag at y perfformiad addysgol is yma yn cynnwys:

- addysg yn cael ei amharu cyn derbyn gofal;
- newid ysgol yn aml unwaith y byddant mewn gofal;
- pryderon am ddigwyddiadau gartref;
- presenoldeb gwael yn yr ysgol – gan nad ystyrir yr ysgol o'r pwysigrwydd mwyaf yn ystod y symud o'r cartref teuluol i ofal yr awdurdod lleol;
- agwedd negyddol neu ddigalon cyfoedion, staff gofal ac athrawon;
- gwaharddiad oherwydd eu hymddygiad – a allai fod yn ymateb gan y person ifanc i aflonyddwch ac ansicrwydd yn eu cartref a'u bywyd teuluol;
- bwlio – yn enwedig os byddant yn ymddangos yn wahanol, yn swil, yn newydd neu'n unig;
- diffyg cefnogaeth gartref gyda gwaith ysgol;
- diffyg symbyliad a hyder o ganlyniad i gyflawniad isel.

Mae'n rhaid cymryd gofal arbennig felly i gadw bywydau a lleoliadau plant yn sefydlog fel y gallant barhau i fynd i'r ysgol a gall gynnwys:

- hyfforddi a chefnogi gofalwyr maeth i annog plant i ddysgu;
- gweithio gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau addysg personol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd ei angen i wneud yn dda yn eu dysgu;
- cymryd camau penodol i sicrhau delio â bwlio'n effeithiol;
- darparu rhwydweithiau cefnogaeth i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cyflwyno'n ofalus i'r ysgol;
- ar gyfer plant sydd ag anabledd sydd efallai'n methu cyflawni'n well mewn arholiadau ffurfiol, mae'n rhaid ceisio cyfleoedd sy'n caniatáu i'r plant hyn lwyddo mewn ffyrdd eraill.

Cyflogaeth y rhai sy'n ymadael â gofal

Mae yna ddigon o dystiolaeth fod yna nifer o ffactorau a all effeithio ar opsiynau gyrfa a llwyddiant ar ôl 16 oed. Gall cymwysterau addysgol a hyfforddiant cyfyngedig, camddefnyddio sylweddau a/neu alcohol, tor-perthynas (personol neu deuluol), symud cartref, byw mewn ardal wledig gyda chludiant cyhoeddus cyfyngedig a rhwydweithiau cymorth cyfyngedig, gyfrannu tuag at allu'r person ifanc i fod yn

llwyddiannus gyda sicrhau cyflogaeth. Mae pobl ifanc sydd â hanes gofal sefydlog neu sy'n gallu cyflawni rhyw sefydlogrwydd yn eu hamgylchiadau personol wrth ymadael â gofal, yn fwy tebygol o gael ac aros mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu astudiaeth.

Fe amlygodd Arolwg Ymadawyr â Gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005 y materion canlynol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau cyflogaeth:

- yr angen am ganllawiau, cyngor neu helpu i nodi'r opsiynau sy'n agored iddyn nhw, a help i ddod o hyd i'r swydd neu'r cwrs iawn. Ystyriwyd y swydd neu'r cwrs iawn y bwysig iawn i bobl ifanc, gan y byddant yn fwy tebygol o gynnal eu diddordeb a'u hysgogiad;
- gofal plant – bydd llawer o famau ifanc yn aros gartref i ofalu am eu plant, a theimlent na allent feddwl am wella eu haddysg neu fynd allan i weithio gan fod gofal plant yn rhy ddrud, ac nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw opsiynau sydd ar gael i'w helpu â hyn;
- cyfleoedd cyfyngedig am swyddi yn yr ardal sy'n arwain at ddibyniaeth ar fudd-daliadau;
- help cyfyngedig gyda phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd;
- diffyg arian ar gyfer: cludiant, dillad, llyfrau a defnyddiau cefnogol eraill – a'r cyfan yn gallu effeithio ar eu dewisiadau.

Roedd sylwadau gan ymadawyr â gofal a ymatebodd i'r arolwg yn cynnwys:
"Alla i ddim cael swydd oherwydd pryder ac iselder ac rwyf wedi ceisio hunanddinistrio. Fe hoffwn fynd i'r coleg. Mi wnes i gwrs cogydd. Dydw i ddim yn meddwl y bydd fy iechyd yn gwella ac allaf i ddim meddwl am y dyfodol."

"Byddaf yn aros gartref i ofalu am fy mabi. Mi hoffwn i fynd i goleg neu waith ond mae angen rhywun i ofalu am fy mabi"

Er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth i rai sy'n ymadael â gofal, mae'n rhaid i'r canlynol fod yn gynhenid mewn ymarfer a chyflawniad gwasanaeth:

- sefydlogrwydd lleoliad (gartref a/neu leoliad gofal ac yn yr ysgol), anogaeth bositif a dyheadau uchel, cysylltiadau gwasanaeth effeithiol ysgol ac addysg;
- asesiad sgiliau cyfredol a chynllunio gyrfa'n rhan ganolog o gynllunio ymadael â gofal a'r broses adolygu;
- cyfeirio at hawliadau i gefnogaeth a chymorth ariannol yn y dyfodol pe baent yn dymuno dychwelyd i addysg bellach neu uwch rywbryd ar ôl ymadael â gofal a sut i'w cyrchu;
- cefnogaeth a chyswllt parhaus i helpu pobl ifanc i gynnal cymhelliant ac i ymateb i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i ddysgu neu ennill;
- cysylltiadau rhyngasiantaeth i ddarparu cyrchiad i gyfleoedd ac i gynllunio datblygiad gwasanaeth yn y maes hwn - yn cynnwys: gyrfaoedd, asiantaethau hyfforddi, colegau addysg bellach/uwch, cyflogwyr, Asiantaeth Budd-daliadau a gwasanaethau ieuenctid.

3.2 Annog Cyfranogiad, Diddordebau Cymdeithasol a Hamdden er mwyn hyrwyddo iechyd a lles

Mae plant sy'n derbyn gofal yn tueddu i gael mwy o broblemau iechyd o'i gymharu â'u cyfoedion a gall fod yn ganlyniad i ystod o ffactorau'n cynnwys:

- gwiriadau iechyd fel ymweliadau â'r deintydd wedi eu methu;
- profiadau bywyd cynnar wedi arwain at etifeddu problemau iechyd;

- addysg a chefnogaeth gyfyngedig i'r rhieni a'r bobl ifanc fel eu bod yn deall sut mae materion iechyd yn bwysig;
- diet gwael, ysmygu, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau ar eu haelwyd;
- anghenion iechyd meddwl neu emosiynol.

Mae'n bwysig felly darparu plant sy'n derbyn gofal â gwiriad iechyd lawn a bod plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn cael eu haddysgu, eu hyfforddi a'u cefnogi i arwain bywydau iach ac yn cael eu helpu i nodi a delio â meysydd o bryder. Gyda chynllunio ar gyfer dyfodol y plentyn/person ifanc, a'u camau tuag at annibyniaeth, mae'n rhaid cwblhau cynllun iechyd unigol sy'n gosod allan eu hanghenion iechyd a sut y mae'r rhain i'w cyfarfod.

Yn ogystal, mae'n bwysig darparu plant a phobl ifanc â chyfleoedd i ddilyn diddordebau cymdeithasol a hamdden i helpu i wella eu hiechyd a'u lles emosiynol, seicolegol a chorfforol.

3.3 Darparu Cartref Diogel

Mae pobl ifanc sy'n ymadael â gofal yn grŵp amrywiol y bydd eu hanghenion llety'n amrywio'n ôl profiad eu gofal, eu hethnigrwydd, cenedl, rhywioldeb, cyswllt â'u teuluoedd, graddfa eu parodrwydd i ymadael ac unrhyw anabledd a allai fod ganddynt. Mae'n dilyn y bydd eu hanghenion llety'r un mor amrywiol.

Er bod diwygiadau i ddeddfwriaeth wedi gwneud peth gwahaniaeth, erys y ffaith fod yna nifer fawr o ymadawyr â gofal sy'n dal i fod heb lety priodol. Gwelir fod yna nifer o ffactorau sy'n cyfrannu tuag at hyn yn cynnwys:

- diffyg llety diogel a fforddiadwy ar gyfer ymadawyr â gofal - mae yna nifer o brosiectau tai â chymorth ond maent yn rhai trosiannol gan fwyaf ac felly'n aml bydd yn rhaid i bobl ifanc symud ymlaen ohonyn nhw'n eithaf sydyn;
- incwm isel ac anghyflogaeth;
- mae rhwystrau gyda lefelau Cymhorthdal Incwm a Budd-daliadau Tai i rai dan 25 oed, a diffyg hawl i Gymhorthdal Incwm i'r rhan fwyaf o rai 16 a 17 oed, wedi cyfrannu at ddigartrefedd cynyddol ymysg pobl ifanc.

Mae llawer o'r problemau a wynebir gan bobl ifanc sy'n ymadael â gofal nid yn unig yn ymwneud â dod o hyd i lety ond ei gadw. Yn gyntaf, bydd llawer o rai sy'n ymadael â gofal â sgiliau bywyd cyfyngedig, fel coginio a glanhau, ynghyd â phrofiadau cyfyngedig a sgiliau gwael mewn rheoli cyllid ac felly byddant yn methu â rheoli eu cyllideb i ddelio â'r holl gostau sy'n gysylltiedig â byw'n annibynnol e.e. biliau, bwyd, rhent. Mewn rhai achosion, fe waethygir y broblem hon gan y realaeth bod nifer fawr o rai sy'n ymadael â gofal yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan fod eu cymwysterau addysgol cyfyngedig yn eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth addas.

Mae darpariaeth ystod briodol o opsiynau llety i gyfarfod ag ystod amrywiol yr anghenion yn gofyn am gytundebau (ffurfiol) gyda darparwyr tai statudol a gwirfoddol i gynllunio gwasanaethau, sicrhau cyrchiad i ystod o denantiaethau a phartneriaethau neu fentrau ar y cyd i sefydlu ystod o opsiynau llety â chymorth o ansawdd.

Wrth gynllunio llety i gyfarfod ag anghenion amrywiol pobl ifanc ac i hyrwyddo a chynorthwyo canlyniadau positif, mae'n bwysig:

- ymgysylltu pobl ifanc gyda'r cynllunio a'r penderfynu;

- asesu anghenion y person ifanc a helpu i'w paratoi ar gyfer byw'n annibynnol;
- cynnig dewis gyda pha fath o lety a'i leoliad;
- sicrhau fod yna gynllunio a pharatoi effeithiol wedi digwydd ar gyfer y symud;
- bod â chynllun wrth gefn rhag ofn na fydd y llety a gynlluniwyd yn digwydd;
- sefydlu pecyn o gymorth tai;
- bod â chynllun ariannol clir i helpu i reoli'r llety.

I'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn gofal mae'n hanfodol bod yr awdurdod yn parhau i sicrhau eu bod yn gallu byw mewn cartref diogel. Ar gyfer y plant hynny sy'n byw gartref mae'n rhaid i Sir Ddinbych weithio gyda rhieni i sicrhau eu bod yn cyrchu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i'w helpu i ddelio ag unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw neu eu plant fel y gellir gofalu'n briodol am y plant. Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn gofal maeth a gofal preswyl mae'n rhaid i Sir Ddinbych barhau i ddilyn ei gweithdrefnau asesu, cymeradwyo ac adolygu cadarn i sicrhau pobl a staff profiadol sydd â'r sgiliau priodol i ofalu am ein plant.

Adran 4: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

4.1 Rôl y Rhiant Corfforaethol

> Unwaith y bydd plentyn mewn gofal, mae angen i holl Aelodau a swyddogion y Cyngor, fel eu rhieni corfforaethol, falio am y plentyn fel pe bai'n blentyn iddyn nhw. Dylai'r diddordeb hwn gwmpasu eu haddysg, iechyd a lles, yr hyn a wnant yn eu hamser hamdden, sut y byddant yn dathlu eu diwylliant a sut y byddant yn derbyn clod ac anogaeth am eu cyflawniadau.
>
> ['Pe bai'n blentyn i mi: llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da'; Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2005]

Rôl y rhiant corfforaethol yw ceisio'r canlyniadau i blant sydd mewn gofal cyhoeddus y byddai pob rhiant da ei eisiau i'w plant eu hunain.

4.2 Rôl yr Aelod Etholedig fel Rhiant Corfforaethol

Fel Cynghorydd mae yna gyfrifoldeb i sicrhau bod y cyngor yn gweithredu fel "rhiant corfforaethol" ar gyfer yr holl blant sydd yn ei ofal.

Fel rhieni corfforaethol, dylai Cynghorwyr:

- fod yn fodlon fod yna ymagwedd gydlynol, effeithiol a holistig i gyfarfod ag anghenion plant sy'n derbyn gofal drwy'r trefniadau cynllunio lleol;
- geisio sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus eraill a ddefnyddir neu sydd eu hangen gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o ansawdd da, yn gydlynol ac yn ystyried yr anghenion;
- herio ymarfer, ffyrdd o weithio a chyflawniad gwasanaethau - craffu a swyddogaethau gweithredol yn llwybrau allweddol i wneud hyn;
- ffeindio allan am blant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych, er enghraifft:-
    - faint o blant sydd mewn angen, plant sydd â'u henwau ar gofrestr amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal sydd yn Sir Ddinbych;
    - pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanyn nhw;
    - pa mor dda y mae'r plant sy'n derbyn gofal yn dod ymlaen yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol a beth sydd angen ei wneud i wella canlyniadau addysgol;
    - beth yw anghenion iechyd y plant sy'n derbyn gofal a sut y mae'r rhain yn cael eu cyfarfod;
    - pa eiriolaeth neu wasanaethau hawliau plant sydd ar gael;
    - beth yw anghenion tai plant sy'n derbyn gofal a sut y mae'r rhain yn cael eu cyfarfod;
    - pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n ymadael â gofal;
- ymgymryd ag hyfforddiant priodol a fydd yn eu helpu i ddeall eu rôl fel rhiant corfforaethol ac anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal;
- ymrwymo i wrando ar farn plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal ac ymateb yn weithredol i geisiadau lle bo hynny'n bosib;
- sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal yn cael eu hystyried gyda datblygiad pob darpariaeth polisi a gwasanaeth mewn perthynas â phlant;

- mynychu pob digwyddiad sy'n cydnabod cyflawniadau a llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael a gofal.

Bydd yr Aelod Arweiniol dros Blant a Theuluoedd yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyfarfod â'i gyfrifoldebau statudol, yn enwedig y ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal.

4.3 Fforwm Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol

Fe sefydlwyd Fforwm Aelodau Etholedig ym mis Mai 2007 gyda'i nod cyffredinol o beri newidiadau gwirioneddol i bolisi a chyflawniad gwasanaeth sy'n gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal. Cadeirir y Fforwm gan yr Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Cymdeithasol ac mae ei aelodaeth yn cynnwys: Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Plant a Theuluoedd, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a chynrychiolwyr aelodau etholedig o bob un o'r pedwar Pwyllgor Craffu.

4.4 Disgwyliadau Swyddogion y Cyngor Sir ac Asiantaethau Partner

Er mwyn cyflawni strategaeth 'rhianta corfforaethol' mae angen i ni egluro'r swyddogaethau unigol, yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau adrannau perthnasol y cyngor ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod datblygiad a chyflawniad eu gwasanaethau'n ystyried, a lle bo hynny'n bosib yn cyfarfod ag anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal.

Yn ogystal, dylai swyddogion y Cyngor sicrhau darparu'r aelodau etholedig â gwybodaeth briodol o ran eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, yn cynnwys datblygiadau gwasanaeth a negeseuon allweddol sy'n cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau positif i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal.

Mae'r canlynol yn amlygu'r swyddogaethau allweddol y gall adrannau Cyngor Sir Ddinbych eu cymryd wrth gyflawni eu cyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Mae dyluniad a chyfeiriad y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cydnabod pwysigrwydd teuluoedd, yn ceisio ymgysylltu rhieni a'r teulu estynedig yn y broses o ofal a chynllunio. Byddwn yn sicrhau mai ein hystyriaeth gyntaf fydd lleoliad teuluol os bydd yn rhaid i blentyn ddod i mewn i'r system ofal. Fel cyngor rydym yn ymrwymedig i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal wrth gynnal arferion gorau. Byddwn yn amcanu i wneud hyn drwy ddatblygu a chyflawni cymorth sy'n hyrwyddo ac yn galluogi plant i fyw gartref neu o fewn rhwydwaith y teulu.

Mae cydnabod ymagwedd bositif a chydlynol gyda phartneriaid yn hanfodol i sicrhau bod gan blant brofiad positif o dderbyn gofal. Mae fframwaith cadarn o ddidoli, asesu a chynllunio o ansawdd, a monitro canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn galluogi ymatebion gwell i angen a chyflawni ymyriad cynnar effeithiol a gwasanaethau ataliol. Yn ogystal â hyn fe fydd yna fonitro agos a hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliad, a recriwtio a dargadw gofalwyr maeth a staff.

Bydd y tîm Ymadael â Gofal yn benodol yn darparu cymorth a chyngor i'r bobl ifanc hynny sy'n ymadael â'r system ofal i fyw'n annibynnol a fydd yn cynnwys: dyfeisio

cynlluniau llwybrau amlasiantaeth, asesiadau ac adolygiadau; cymorth gydag agweddau ymarferol y trawsnewid, hyfforddiant a chyflogaeth, llety, cyllid, a chefnogaeth emosiynol, yn unol â phrofiadau normal eu cyfoedion.

Dysgu Gydol Oes

Bydd Adran Dysgu Gydol Oes yn cynnal trosolwg o bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal i sicrhau y gallant gynnal lle mewn ysgol gyda chymorth sydd wedi ei ddylunio i gyfarfod â'u hanghenion unigol. Mae'r Adran mewn sefyllfa dda i gael dylanwad positif ar addysg a llwybr gyrfa plentyn neu berson ifanc drwy godi dyheadau a darparu cymorth ac arweiniad effeithiol a thargedol i ddisgyblion unigol.

Bydd Cynlluniau Addysg Bersonol yn sicrhau cynllunio ar gyfer pob angen yn ystod amseroedd pwysig fel y newid rhwng lleoliadau, y newid i ysgol newydd, yn ystod cyfnodau arholiadau ac ar y trawsnewid o addysg ar safle ysgol i gyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r asiantaethau partner a gwasanaethau perthnasol fel bod newid ysgolion yn gyfyngedig ac nad yw newid lleoliad, os ydynt yn angenrheidiol, yn digwydd yn ystod amser arholiadau.

Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgell ac Ieuenctid

Gall yr Adrannau hyn ddarparu cyfleoedd rhwydweithio i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol mewn gweithgareddau dysgu a hamdden yn y gymuned.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn datblygu rhwydwaith o gynlluniau a fydd yn darparu cyfleoedd â chymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyrchu cyfleusterau llyfrgell a hamdden y Cyngor, fel pasys hamdden am ddim, ymweliadau â'r llyfrgell, sesiynau darllen, dyddiau chwaraeon. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at lefelau cyflawniad uwch ac iechyd da drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden cynhyrchiol ac iach. Bydd staff yn gweithio mewn partneriaeth â staff dysgu gydol oes a gwaith cymdeithasol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gallu perthyn i, a chyfranogi mewn gweithgareddau yn y gymuned ac yn yr ysgol a fydd yn helpu i alluogi'r plant a'r bobl ifanc hyn i ffurfio cyfeillgarwch o fewn eu cymuned..

Bwriedir hefyd, lle bo hynny'n bosib, i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal dderbyn achrediad am eu cyfranogiad a'u hymglymiad mewn gweithgareddau allweddol fel gwirfoddoli, cyfranogi yn y cynllun trwyddedu corfforaethol, ymglymiad yng nghyflawniad hyfforddiant ac ymgynghori â phobl ifanc eraill.

Tai

Mae diffyg tenantiaeth a gynorthwyir a neu lety â chymorth arall yn dal i fod yn bryder mawr yn Sir Ddinbych ac felly mae'n orfodol bod yr Adran Dai, mewn partneriaeth â darparwyr tai eraill, yn ymrwymedig i gynyddu nifer yr eiddo sydd ar gael ar gyfer y rhai sy'n ymadael â gofal.

Yn ogystal, mae'n bwysig bod darparwyr tai'n gweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid eraill i sicrhau fod yna becynnau cymorth cadarn ac amrywiol ar gael i alluogi pobl ifanc i gynnal eu darpariaeth llety.

Twristiaeth, Treftadaeth, Diwylliant a Chefn Gwlad

Gall y Gwasanaethau hyn ddarparu cyfleoedd rhwydweithio i blant a phobl ifanc i helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol mewn gweithgareddau cymunedol.
Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn datblygu rhwydwaith o gynlluniau a fydd yn darparu cyfleoedd â chymorth i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc gyrchu cyfleusterau

llyfrgell a hamdden y Cyngor, fel tocynnau i sioeau, teithiau i amgueddfeydd, cyrchiad i weithgareddau a rhaglenni cefn gwlad. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at lefelau cyflawniad uwch, hunan-barch ac iechyd da drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau ystyrlon. Bydd staff yn gweithio mewn partneriaeth â staff gwaith cymdeithasol i sicrhau y gall plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc berthyn i, a chyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol ac yn yr ysgol a bydd hynny'n helpu i alluogi'r plant a'r bobl ifanc hyn i ffurfio cyfeillgarwch yn eu cymunedau.

Uned Polisi Strategol
Gan fod pob adran y Cyngor â chyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol mae'n hanfodol bod eu polisïau, strategaethau a'u cynlluniau'n nodi'r hyn y gallant ei wneud i hyrwyddo canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal. Mae ymglymiad yr uned polisi strategol yn hanfodol i sicrhau bod mentrau, strategaethau a dogfennau ledled y Cyngor yn delio ag anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn lle bo hynny'n briodol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r agenda rhianta corfforaethol.

Hefyd, mae gan aelodau etholedig rôl allweddol fel aelodau etholedig ac felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaeth. Mae'n rhaid i'r gefnogaeth gynnwys gwybodaeth reolaidd am ein plant sy'n derbyn gofal a'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyfarfod â'u hanghenion, yn ogystal â chyfleoedd i gyfarfod â nhw a chlywed yn bersonol am eu profiadau a'r materion sy'n eu hwynebu.

Personél Canolog a Hyfforddiant
Rydym am i bob plentyn sy'n derbyn gofal a pherson ifanc gyflawni eu dyheadau a'u nodau ar lwybr eu gyrfa ac felly mae angen sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Mae Cyngor Sir Ddinbych fel cyflogwr mawr mewn lle da i ddarparu lleoliadau profiad gwaith a/neu brentisiaeth, o fewn gwahanol adrannau'r cyngor. Mae galluogi pobl ifanc i gyrchu profiad gwaith perthnasol a/neu brentisiaeth yn hanfodol ar gyfer cynnal eu synnwyr o gynhwysiant yn ystod y newid o lencyndod i oedolaeth.

Hefyd, mae'r bobl ifanc hyn mewn sefyllfa dda i godi ymwybyddiaeth i staff, rheolwyr ac aelodau etholedig am y profiadau o dderbyn gofal ac ymadael â gofal a'r materion sy'n bwysig iddyn nhw ac felly fe anogir ac fe hyrwyddir eu hymglymiad mewn cyflawni hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Fe ddarperir hyfforddiant a datblygu sgiliau i'r rheiny sydd ynghlwm â'r fath weithgareddau a lle bo hynny'n bosib fe roddir achrediad priodol.

Mae yna nifer o adrannau eraill o fewn Cyngor Sir Ddinbych ac fe fydd gan bob un ohonyn nhw ryw ran i'w chwarae i gyflawni cyfrifoldeb y Cyngor fel rhieni corfforaethol, er enghraifft profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.

Iechyd
Mae gwella iechyd plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel. Mae Nyrsys Arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc â rôl bwysig yn sicrhau datblygu Cynlluniau Iechyd Personol gyda'r plentyn neu'r person ifanc a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae datblygu sianelau cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau'n sylfaenol, i sicrhau fod yna brosesau monitro a chyfeirio cadarn.

Bydd delio â, a chyfarfod ag anghenion iechyd plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc yn cynnwys anghenion iechyd meddwl yn ogystal ag anghenion iechyd emosiynol a chorfforol. Mae gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau cyrchiad i ystod eang o

wasanaethau ynghyd ag addysg a rhaglen hyfforddiant da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc a'u gofalwyr yn hanfodol i gyflawni canlyniadau iechyd positif.

4.5 Gweithgor Rhianta Corfforaethol

Fe sefydlwyd y Gweithgor ym mis Gorffennaf 2007 gyda'r prif ffocws o gefnogi gwaith Fforwm yr Aelodau Etholedig yn ogystal â throi strategaeth a pholisi'n gyflawniad gwasanaeth. Caiff y grŵp ei arolygu gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac mae'n cynnwys swyddogion allweddol, yn cynnwys llunwyr polisi a strategaeth a staff gweithredol a rheng flaen, ar draws y Cyngor cyfan.

Amcanion y grŵp yw:

- datblygu a hyrwyddo ystod o adnoddau a chyfleoedd sydd ar gael o'n cyfoeth o rwydweithiau cymunedol i hyrwyddo a datblygu ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal;
- datblygu a monitro rhaglenni gwaith cynhwysfawr i ddatblygu arferion a bwrw datblygiad gwasanaeth ymlaen i hyrwyddo canlyniadau a chyfleoedd ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal;
- datblygu rhaglen hyfforddi Rhianta Corfforaethol er mwyn i aelodau etholedig ddeall a datblygu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol;
- coladu materion sy'n ymddangos ac adborthi i'r timau rheoli perthnasol i gynnal datblygiad gwasanaeth.

Mae gwaith y Gweithgor Rhianta Corfforaethol wedi ei osod allan yn y rhaglen waith sydd yn Adran 5 isod.

Adran 5: Cynllunio a Datblygiadau'r Dyfodol (Rhaglen Waith Rhianta Corfforaethol)

HYRWYDDO CYFLEOEDD ADDYSG A CHYFLOGAETH			
Gweithgaredd	**Canlyniadau (Mesurau)**	**Gweithred**	**Cynnydd** C: Cwblhawyd A: Ar Amser D: Dilëwyd
Addysg			
Datblygu cynlluniau tracio sydd wedi eu cysylltu â chynlluniau Ôl 16 i fonitro a sicrhau bod pobl ifanc yn symud ymlaen gyda'u cynlluniau	Gwell cyflawniad addysgol ac addysg tymor hir/cyfleoedd gyrfa i Blant sy'n Derbyn Gofal Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Nodi gwaith a gwblhawyd hyd yma b) Gweithio gyda cholegau, ysgolion, rhieni, gofalwyr a chydweithwyr addysg i nodi opsiynau tracio c) Cynhyrchu protocol/canllawiau clir ar gyfer pawb sy'n ymglymedig ag amlinellu'r system dracio (i gynnwys datblygu dogfennaeth i'w gwblhau) d) Datblygu cytundeb gyda chydweithwyr i gynorthwyo a monitro cynlluniau Ôl 16	
Datblygu cynllun 'Pencampwyr Addysg' mewn cydweithrediad â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (CET) – ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 sy'n derbyn gofal.	Gwell cyflawniad addysgol ac addysg tymor hir/cyfleoedd gyrfa i Blant sy'n Derbyn Gofal	a) Nodi plant blwyddyn 10 sy'n derbyn gofal a fydd yn mynd ymlaen i flwyddyn 11 yn 2009/010 a'u paru gydag aelod CET b) Cynhyrchu dogfennau canllaw i'r holl staff fod yn ymglymedig â'r cynllun	

		c) Sesiynau hyfforddi a briffio ar gyfer y cynllun) Cyflwyno'r peilot yn raddol ar gyfer tymor olaf Blwyddyn 10 e) Gwerthuso peilot ac adolygu cynllun fel y bo'n addas ar gyfer blwyddyn 11 nesaf	
Fforio dichonolrwydd pecynnau cynnal a chymorth TG ar gyfer aelwydydd gofal maeth gyda chyfrifiaduron	Plant a phobl ifanc â'r offer i helpu cyflawni eu potensial	a) Nodi anghenion cymorth a chynnal plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr (adolygu ymholiadau ac anawsterau a brofwyd hyd yma gan y rhai sydd â chyfrifiaduron) b) Gweithio gyda TG corfforaethol i nodi pwy a sut y gellir darparu pecyn cynnal (gallai hyn gynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau neu gyrsiau hyfforddi i bobl ifanc a gofalwyr) – datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y ddarpariaeth hon c) Fforio posibiliadau gofalwyr maeth yn cyrchu cyrsiau TG CSDd	
Gwella graddfeydd presenoldeb ysgol y plant sy'n derbyn gofal	Gwell cyflawniad addysgol ac addysg tymor hir/cyfleoedd gyrfa i Blant sy'n Derbyn Gofal Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Nodi ymarfer o fewn awdurdodau lleol eraill sy'n ceisio sicrhau presenoldeb yn yr ysgol b) Sefydlu cysylltiadau gyda Chynorthwywyr Cynnal Presenoldeb mewn Addysg a nodi eu swyddogaeth yn cyflawni'r weithred hon.	

		c) Gwerthuso opsiynau prosesau/arferion gwaith y gellid eu mabwysiadu yn Sir Ddinbych (yn cynnwys oblygiadau adnoddau) d) Cyflwyno opsiynau i dîm rheoli Addysg a Gwasanaeth Cymdeithasol i'w hystyried a'u cymeradwyo	
Nodi a datblygu pecynnau ariannu i rai sy'n ymadael â gofal sy'n symud ymlaen i addysg uwch	Pobl ifanc â chyrchiad i ystod o opsiynau cymorth i'w darparu â'r sgiliau a'r profiadau i hyrwyddo eu datblygiad a llwyddiant eu gyrfa yn y dyfodol Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Nodi pecynnau ariannu sy'n ofynnol i rai sy'n ymadael â gofal sy'n symud ymlaen i addysg uwch b) Cyflwyno achos busnes i Graffu/grwpiau rheoli ar gyfer yr ariannu ychwanegol sy'n angenrheidiol c) Datblygu protocol ar gyfer darparu cymorth ariannol i rai sy'n ymadael âa gofal mewn addysg uwch	Cytundeb yn SSEMT ar Fawrth 17 i raniad ariannu o 50% gychwyn Ebrill 1af
Nodi a datblygu pecynnau adnodd gwybodaeth i rai sy'n ymadael â gofal sy'n symud ymlaen i addysg uwch	Pobl ifanc â chyrchiad i ystod o opsiynau cymorth i'w darparu â'r sgiliau a'r profiadau i hyrwyddo eu datblygiad a llwyddiant eu gyrfa yn y dyfodol Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Gweithio gyda rhai sy'n ymadael â gofal sydd mewn prifysgol/ yn paratoi i fynd i brifysgol ar hyn o bryd i nodi eu hanghenion adnoddau gwybodaeth i baratoi i fynd i'r brifysgol a thra byddant yn y brifysgol, b) Nodi arferion gorau mewn awdurdodau lleol eraill ar gyfer darparu cymorth c) Datblygu a gweithredu pecyn adnoddau – mewn cydweithrediad â	

		rhai sy'n ymadael â gofal	
Fforio dichonolrwydd darparu gwersi cerddoriaeth am ddim	Gwell cyflawniad addysgol Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Nodi cynlluniau presennol yn Lloegr (lle mae'n ofyniad) b) Ymgynghori â phlant a phobl ifanc i sefydlu lefel y galw potensial c) Gweithio gyda gwasanaethau addysg ac ieuenctid i nodi opsiynau ar gyfer darparu gwersi cerddoriaeth (i gynnwys pa fath o wers; lle y byddid yn eu darparu a chan bwy). d) nodi costau darparu'r gwersi a chyflwyno'r achos busnes i'r timau/pwyllgorau rheoli perthnasol	
Cynyddu cyrchiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Ymadael â Gofal' i lyfrgelloedd	Gwell cyflawniad addysgol Cynhwysiant Cymdeithasol Gwell hunan-barch	a) Fforio cyfleoedd i ddatblygu digwyddiadau Cynllun Darllen Haf ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal 5-11 oed b) Nodi opsiynau i gynyddu cyrchiad i'r llyfrgell gan blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal e.e. ymweliadau â'r llyfrgell	
Cyflogaeth			
Datblygu rhaglen profiad gwaith o fewn y Cyngor Sir (e.e. lleoliadau cyfnod gwyliau 2 wythnos) i rai 15-18 oed	Pobl ifanc â chyrchiad i ystod o opsiynau cymorth i'w darparu â'r sgiliau a'r profiadau i gynorthwyo eu camau tuag at annibyniaeth ac i hyrwyddo'u datblygiad a llwyddiant eu gyrfa yn y	a) Sefydlu arferion a Gweithgaredd cyfredol i ddatblygu cynllun sydd wedi ei ffurfioli'n fwy ar draws y Cyngor a nodi opsiynau i ddatblygu cynllun sydd wedi ei ffurfioli'n fwy ar draws y Cyngor b) Nodi cyrsiau galwedigaethol sydd	Cafwyd lleoliad profiad gwaith yn Swyddfa'r Arweinydd (Gorffennaf 2009)

	dyfodol Cynhwysiant Cymdeithasol	i'w cynnal fel rhan o gynlluniau ôl-16 a nodi'r busnes a'r gweithrediadau o fewn y Cyngor sy'n cydweddu â'r cyrsiau galwedigaethol c)Nodi timau o fewn y Cyngor a allai gynnal pobl ifanc ar y cynllun d) Datblygu defnyddiau hyrwyddo i hysbysebu'r cynllun i bobl ifanc e) Datblygu canllawiau ar gyfer timau sy'n cynnal y 'rhaglen profiad gwaith' f)Gweithredu'r rhaglen g) Datblygu teclyn gwerthuso i fesur canlyniadau a manteision y cynllun h) Gwerthuso'r cynllun (i ymglymu pobl ifanc)	
Cynyddu nifer y rhai sy'n ymadael â gofal sydd ar gyfleoedd prentisiaeth fodern ledled y Cyngor	Pobl ifanc â chyrchiad i ystod o opsiynau cymorth i'w darparu â'r sgiliau a'r profiadau i gynnal eu camau tuag at annibyniaeth a hyrwyddo eu datblygiad a llwyddiant eu gyrfa yn y dyfodol Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Gweithio gydag AD corfforaethol i adolygu protocol ar gyfer cynlluniau prentisiaeth fodern i sicrhau bod y cynllun yn hygyrch i rai sy'n ymadael â gofal b) nodi opsiynau ar gyfer prentisiaeth sylfaen ar gyfer y rhai hynny sy'n ymadael â gofal sy'n methu cyrchu'r cynllun prentisiaeth fodern	
Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal sy'n ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli	Gwell sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol	a) Gweithio gyda DVSC i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal sy'n cyrchu Cynllun Gwirfoddoli'r Mileniwm	

		b) Nodi opsiynau i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli i rai sy'n ymadael â gofal o fewn prosiectau sydd dan arweiniad y Cyngor (e.e. Popty'r Garn/ Meifod/ Meithrinfa Aberchwiler/ clybiau ieuenctid/ Bws Nos) *(defnyddio gwybodaeth aelodau etholedig o grwpiau/sefydliadau lleol)*. Byddai angen i gamau nodi: - pa gymorth fyddai ei angen i alluogi rhai sy'n ymadael â gofal gymryd rhan (e.e. transport; cinio) - nodi a fyddai pobl ifanc yn gorfod cael gwiriadau swyddfa cofnodion troseddol etc.	
Cynllun prynu prawf/trwyddedu achrededig	Cynhwysiant Cymdeithasol Llai o botensial o droseddu yn ystod blynyddoedd ieuenctid ac oedolaeth Datblygiad profiad a chymwysterau i gynnal cyflogaeth lwyddiannus yn y dyfodol	a) Cadarnhau rhaglen Gweithgaredd trwyddedu 2009 a nodi plant sy'n derbyn gofal i gymryd rhan yn y cynllun (darparu hyfforddiant priodol i bobl ifanc sy'n newydd i'r cynllun) b) Cysylltu â Gwasanaethau Ieuenctid i nodi opsiynau i achredu'r cynllun trwyddedu a'i weithredu fel y bo'n briodol (e.e. Prifysgol Plant/ Prifysgol Ieuenctid/ Rhwydwaith y Coleg Agored)	
Datblygu rhaglen dreigl achrededig i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a nodir yn y rhaglen	Datblygiad profiad a chymwysterau i gynnal cyflogaeth lwyddiannus yn y	a) Cysylltu â Gwasanaethau Ieuenctid i nodi pa weithgareddau yn y rhaglen waith y gellid eu hachredu	Cynhaliwyd cyfarfod â Rhian Jones yn y Gwasanaethau

waith yma	dyfodol	drwy Brifysgol y Plant/Ieuenctid b) Datblygu modiwlau Prifysgol Ieuenctid ar gyfer: • cyfranogiad gyda chyfweld • datblygu newyddlenni a gwybodaeth • datblygu Cyngor Plant Mewn Gofal • ymglymiad mewn hyfforddiant • ymglymiad mewn cyflenwi digwyddiadau allweddol • dod yn eiriolwr cyfoedion a/neu ymgynghorydd • cyfleoedd profiad gwaith	Ieuenctid sydd wedi cytuno y gellir datblygu modiwlau o'r rhaglen waith yma

ANNOG CYFRANOGIAD, DIDDORDEBAU CYMDEITHASOL A HAMDDEN			
Gweithgaredd	**Canlyniadau (Mesurau)**	**Gweithred**	**Cynnydd**
Ymestyn y cynllun pas hamdden	Gwell iechyd a lles Cynhwysiant Cymdeithasol Sgiliau rhyngbersonol	a) Nodi a ellir cael cytundeb gyda Chanolfan NOFA i ganiatáu Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mhrestatyn i gyrchu'r cyfleusterau yno	Pasys nofio wedi eu rhoi i bob person ifanc, yn cynnwys pasys teulu i aelwydydd gofal maeth gyda phlant dan 8. Pas campfa am ddim i bobl ifanc 16 oed a hŷn

Datblygu portffolio iechyd personol i bobl ifanc er mwyn iddynt gael llyfryn sy'n cynnwys eu gwybodaeth iechyd a gwybodaeth ychwanegol ar wasanaethau lleol etc.	Gwell iechyd a lles	a)Nodi pobl ifanc sydd i fod yn ymglymedig â datblygu'r portffolio b) Nodi lefel/math y wybodaeth sydd angen ei gynnwys yn y portffolio a'r cyfrwng gorau i gyflwyno'r portffolio c) Nodi ariannu i ddatblygu'r portffolio d) Cynhyrchu'r portffolio	
Fforio cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cludiant am ddim i Blant sy'n Derbyn Gofal yn Sir Ddinbych	Integreiddiad cymdeithasol a chynhwysiant	a) Cynnal dadansoddiad o anghenion cludiant Plant sy'n Derbyn Gofal (i gynnwys y rheswm bod plant a phobl ifanc angen cludiant; disgwyliadau bod gofalwyr yn cynorthwyo gyda chludiant; dulliau cludiant sy'n angenrheidiol) b) Gweithio gydag adran drafnidiaeth Sir	

		Ddinbych i nodi opsiynau ar gyfer darparu cludiant am ddim (neu gludiant cymorthdaledig) fel pasys bws. c) Nodi cynlluniau sy'n darparu hurio beic/trwsio a chynnal a chadw beic y gellid eu cyrchu gan bobl ifanc	
Fforio opsiynau tocynnau am ddim ar gyfer digwyddiadau a pherfformiadau	Integreiddiad cymdeithasol a chynhwysiant	a) Nodi cyfleoedd darparu tocynnau am ddim i'r teulu i ddigwyddiadau yn y sir / e.e. nifer penodol o docynnau ar gyfer sioeau a/neu docynnau sydd heb eu gwerthu i berfformiadau yn y Pafiliwn a theatrau eraill Sir Ddinbych b) Datblygu proses i hysbysu gofalwyr o ddigwyddiadau a dyrannu tocynnau	
Teithiau o gwmpas atyniadau treftadaeth e.e. amgueddfeydd	Integreiddiad cymdeithasol a	Datblygu cynllun i Blant sy'n Derbyn	

	chynhwysiant	Gofal a'u teuluoedd (h.y. teuluoedd maeth) gael ymweliadau tywys/tocynnau am ddim i atyniadau treftadaeth Sir Ddinbych	
Fforio cyfleoedd am raglen Cefn Gwlad addysgol	Integreiddiad cymdeithasol a chynhwysiant Gwell cyflawniad addysgol	Nodi opsiynau ar gyfer cyflawni digwyddiad neu raglen 'Dysgu yn eich Cefn Gwlad' i Blant sy'n Derbyn Gofal	
Pobl ifanc yn ymglymedig â chyfweld	Cyflawnir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rheiny sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Mae pobl ifanc yn gallu datblygu sgiliau, hyder, gwybodaeth a	a) Nodi nifer y bobl ifanc sydd eisoes wedi eu hyfforddi i gyfranogi i brosesau recriwtio a chyfweld i sefydlu a ellid hyfforddi mwy o bobl ifanc gan ddefnyddio defnyddiau hyfforddi Barnardo's (o ran gallu a diddordeb) b) Nodi swyddi sydd ar ddod (o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar draws y Sir) y gallai	3 Plant sy'n Derbyn Gofal yn ymglymedig gyda recriwtio PA Barnardo's (Mawrth 2009)

	phrofiad (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	pobl ifanc fod yn ymglymedig â nhw	
Cynllun Hyfforddwyr Gofal Cyfoedion	Cyflawnir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rheiny sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder, gwybodaeth a phrofiad (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	a) Fforio opsiynau i ddatblygu cwrs 'cysylltu â phobl ifanc' ar gyfer staff y Cyngor, rheolwyr ac aelodau b) Nodi cynlluniau hyfforddi / rhaglenni y gall pobl ifanc eu mynychu i ddatblygu'r sgiliau i roi hyfforddiant – i gynnwys fforio gyda Gwasanaethau Ieuenctid y potensial i gael achrediad am eu hymglymiad c) Nodi pobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn rhoi hyfforddiant d) Datblygu'r cynllun	
Ymgynghorwyr Gofal Cyfoedion (pobl ifanc sydd wedi eu hyfforddi i ymgynghori/gyfweld pobl ifanc eraill am eu profiadau a'u barn am ansawdd gwasanaethau)	Cyflawnir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rhai sy'n eu derbyn	a) Nodi cynlluniau/rhaglenni hyfforddi y gallai pobl ifanc eu mynychu i ddatblygu'r sgiliau i gyfweld ac ymgynghori	

	Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	â phobl ifanc – i gynnwys fforio gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid y potensial i gael achrediad am eu hymglymiad b) Nodi meysydd gwasanaeth y gellid eu gwerthuso (fel gyda'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd; amserlen Archwilio) c) Nodi pobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn bod yn ymgynghorydd gofal cyfoedion Nodi opsiynau i ymestyn y cynllun fel bod pobl ifanc yn ymglymedig ag asesu ansawdd y gofal a dderbynnir ar draws adrannau eraill (e.e. hamdden/llyfrgelloedd)	
Eiriolwyr cyfoedion	Cyflenwir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rhai	a) Nodi arferion da mewn awdurdodau lleol eraill sydd â chynlluniau 'eiriolwr	

	sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	cyfoedion' b) Nodi pobl ifanc i weithio gyda'r Gweithgor i ddatblygu cynllun eiriolwyr cyfoedion yn Sir Ddinbych (a dod yn eiriolwyr cyfoedion) c) Fforio opsiynau ar gyfer datblygu cynllun eiriolwyr cyfoedion o fewn Sir Ddinbych	
Cyngor Plant Mewn Gofal	Cyflenwir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rhai sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	a) Nodi arferion da mewn awdurdodau lleol eraill sydd â Chynghorau Plant mewn Gofal ynghyd ag ymarfer presennol ynghylch cynghorau ysgol yn Sir Ddinbych b) Nodi pobl ifanc i weithio gyda'r Gweithgor i ddatblygu Cyngor yn Sir Ddinbych (a dod yn aelodau o'r Cyngor) c) Fforio opsiynau i ddatblygu Cyngor o fewn Sir Ddinbych (i	

		gynnwys pa reolwyr, cyfarwyddwyr ac aelodau'r Cyngor fyddai'n ymglymedig) d) Cyflwyno argymhellion i grwpiau rheoli/bwyllgorau perthnasol	
Rhaglen gwibsgwrsio rhwng aelodau a gofal Plant sy'n Derbyn Gofal/ rhai sy'n ymadael â gofal	Cyflenwir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rhai sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	a) Datblygu cynllun gwibsgwrsio i bobl ifanc allu cyfarfod ag aelodau a thrafod materion / cael gwybodaeth etc. b) Cynhyrchu canllawiau i aelodau a phobl ifanc ar y ffordd y mae'r cynllun yn gweithio c) Sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau gwibsgwrsio	
Pobl Ifanc yn cynhyrchu gwybodaeth (e.e. newyddlenni) ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc	Cyflenwir gwasanaethau'n unol â barn a phrofiadau'r rhai	a) Nodi pobl ifanc i weithio gyda NYAS yn datblygu newyddlenni a nodi anghenion	

	sy'n eu derbyn Sgiliau rhyngbersonol Rhoddir y gallu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth (wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol)	gwybodaeth Plant sy'n Derbyn Gofal/ pobl ifanc a gofalwyr b)Nodi 2 sy'n ymadael â gofal i weithio gyda thîm Difanc ar reoli a datblygu Difanc (darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau i alluogi hyn) c) Cefnogi disgyblion ysgol Brynhyfryd â'u gwaith yn cynhyrchu gwybodaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal	
Gweithdy drama i hyrwyddo hunan-barch, hyder etc	Cynhwysiant Cymdeithasol Gwell hunan-barch a hyder Sgiliau rhyngbersonol	a) Nodi grwpiau / theatrau sy'n darparu gweithdai i bobl ifanc ar hunan-barch/ hyder/profiadau /dyheadau etc. a chael manylion am gynnwys rhaglenni a chostau b) Nodi ariannu ar gyfer darparu gweithdai drama	
Diwrnod Chwaraeon	Gwell iechyd a	a) Nodi opsiynau, i	

	lles Cynhwysiant Cymdeithasol Gwell hunan-barch	gynnwys lleoliad a chostau, i gyflawni diwrnod chwaraeon i Blant sy'n Derbyn Gofal (digwyddiadau i rai 5 – 11 oed a 11+) (i gynnwys gwobrau am gyflawniadau) b) Nodi ariannu ar gyfer y digwyddiad (cytundeb NYAS?) c) Ceisio cytundeb ar y gwobrau i'w dyfarnu d) Ymgynghori â busnesau lleol i geisio nawdd ar gyfer dyfarniadau/gwobrau e) Nodi gwahoddedigion ar gyfer y digwyddiad f) Cynhyrchu defnyddiau cyhoeddus/hyrwyddol allweddol i'w hanfon at bob rhiant / gofalwr / staff allweddol / partneriaid j) Cyflawni'r digwyddiad	

Seremoni Wobrwyo / Ddathlu	Gwell hunan-barch	Cyflawni digwyddiad gwobrwyo / dathlu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	
Digwyddiad Ymadawyr â Gofal	Gwell hunan-barch Cynhwysiant Cymdeithasol	Fforio opsiynau i gyflawni digwyddiad ymadawyr â gofal i gyd-fynd ag wythnos ymadawyr â gofal	
Sicrhau fod yna gyrchiad da a theg i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd ar gyfer rhai 3 a 4 oed	Cynhwysiant Cymdeithasol	Gweithio gyda grŵp Hawl Bore Oes i fapio darpariaeth bresennol a nodi bylchau	
Sicrhau fod yna gyrchiad teg i gyfleoedd chwarae o ansawdd i blant sydd o oed cyn-ysgol	Cynhwysiant Cymdeithasol	Gweithio gyda grŵp Hawl Bore Oes i fapio darpariaeth bresennol a nodi bylchau	
DARPARU CARTREF DIOGEL			
Gweithgaredd	**Canlyniadau (Mesurau)**	**Gweithred**	**Cynnydd**
Gwella cyrchiad i lety fforddiadwy o ansawdd ar gyfer ymadawyr â gofal		Cynnal cysylltiadau gyda'r Panel Cymorth Tai ynglŷn â darpariaeth llety yn Sir Ddinbych	
Adnoddau cymorth llety ar gyfer ymadawyr â gofal	Pobl ifanc â chyrchiad i	a) Nodi anghenion cymorth/gwybodaeth	

	ystod o opsiynau cymorth i'w darparu â'r sgiliau a'r profiadau i gynorthwyo eu camau tuag at annibyniaeth a hyrwyddo eu datblygiad a'u llwyddiant yn y dyfodol	ymadawyr â gofal yn eu llety eu hunain (mewn ymgynghoriad â phobl ifanc sydd wedi ymadael â gofal a phobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal) b) Nodi arferion da mewn awdurdodau lleol eraill c) Nodi opsiynau i gyflawni pecynnau cymorth (i gynnwys pa sefydliadau all ddarparu pa wasanaethau/gymorth) sy'n addas i gyfarfod ag anghenion pawb sy'n ymadael â gofal d) Nodi ariannu ar gyfer pecynnau cymorth e) Cynhyrchu pecyn adnoddau llety ar gyfer ymadawyr â gofal (mewn partneriaeth â phobl ifanc sydd wedi ymadael â gofal a phobl ifanc sy'n paratoi i ymadael â gofal)	

Llety adeg tymor (gweler hefyd y camau uchod ynglŷn â phecynnau ariannu)	Sefydlogrwydd yn ystod cyfnod prifysgol sydd, yn ei dro'n galluogi pobl ifanc i gwblhau eu hastudiaethau a chynyddu/gwella cyfleoedd ar gyfer eu cyflogaeth yn y dyfodol Cynhwysiant Cymdeithasol	a) Nodi anghenion llety pobl ifanc sy'n astudio mewn prifysgol yn ystod y tymor (ynghyd ag ymadawyr â gofal sydd yn y brifysgol yn bresennol) b) Nodi arferion mewn awdurdodau lleol eraill c) Nodi opsiynau llety ar gyfer ymadawyr â gofal Sir Ddinbych (gallai llety fod yn ôl yn Sir Ddinbych neu yn lleoliad y Brifysgol)	
DATBLYGU A HYRWYDDO RHIENI CORFFORAETHOL YN SIR DDINBYCH			
Gweithgaredd	**Canlyniadau (Mesurau)**	**Gweithred**	**Cynnydd**
Gweithgor – ymestyn aelodaeth	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	Ceisio cynrychioliad gan y gwasanaethau canlynol i fod ynghlwm â'r Gweithgor i helpu i gyflawni'r rhaglen waith: - Hamdden - Llyfrgelloedd - Twristiaeth	Cwblhawyd (Mawrth 2009)

		Treftadaeth a Diwylliant - AD Corfforaethol (Pauline Warren)/ - Tîm Hyfforddi Corfforaethol - Hyfforddiant a Datblygiad Gwasanaethau Cymdeithasol a Phersonél - TG - Dysgu Gydol Oes - Adran Pwyllgorau - Uned Polisi Strategol - Swyddog Cyfranogiad Partneriaeth - Trwyddedu Mae angen cynrychioliad hefyd gan (Gwasanaeth PA) a NYAS	
Fframwaith adrodd i Aelodau	Rhianta	a) Aelod etholedig a	Fframwaith adrodd (templedi etc) ar gyfer

Etholedig	corfforaethol rhagweithiol	enwebwyd (a hyfforddwr gofal cyfoedion o bosib) i roi cyflwyniad blynyddol ar rianta corfforaethol (cynnydd, cynlluniau'r dyfodol etc) yn y Cyngor Llawn – Dadl flynyddol yn y cyngor llawn gyda chyflwyniadau gan grwpiau o Blant sy'n Derbyn Gofal, gofalwyr maeth ac ymadawyr â gofal ar eu profiadau yn ystod y flwyddyn b) Cynhyrchu bwletin rhianta corfforaethol (ddwywaith y flwyddyn) i aelodau i ddelio â chwestiynau allweddol/gofynion data a restrir yn 'Pe Bai'n Blentyn i Mi') c) Datblygu bwletin 1 dudalen i aelodau i'w gyhoeddi bob 3 mis ar ddatblygiadau allweddol; ceisiadau am help (yn bersonol	fforwm aelodau etholedig wedi ei sefydlu

		neu drwy gysylltiadau eu grŵp cymunedol); cysylltiadau â gwybodaeth bellach	
Hyfforddiant Aelodau Etholedig	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	Cyflawni 2 o ddigwyddiadau hyfforddi pellach	Cyflawnwyd hyfforddiant ym mis Hydref 2008 i nifer fechan o aelodau
Pecyn Adnoddau Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau etholedig	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	Rhoi Pecyn Adnoddau Rhianta Corfforaethol i aelodau etholedig nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant sy'n cynnwys: - Cyfres Briffio Pencampwyr Plant Ymchwil mewn Ymarfer - Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru Pe Bai'n Blentyn i Mi - Strategaeth Rhianta Corfforaethol - Cyflwyniad Hyfforddi Rhianta Corfforaethol	
Strategaeth Rhianta Corfforaethol	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	a) Cyflwyno strategaeth rhianta corfforaethol i bob Pwyllgor Craffu ac	Cymeradwyaeth i Strategaeth Rhianta Corfforaethol a chytundeb i'w chynnwys yn fframwaith polisi'r Cyngor yn y Cabinet ar 23/6/09

		MMC i nodi sut y gallant gyfrannu tuag at gyflawni'r strategaeth b) Cyflwyno strategaeth i'r Cyngor Llawn c) Lansio a hyrwyddo strategaeth newydd i holl staff y Cyngor a gofal d) Sefydlu a ellir cynnwys y strategaeth yn fframwaith polisi'r Cyngor	
Rhyngweithio Aelod Etholedig gyda phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	Fforio opsiynau i ddatblygu newyddlen o ofal plant a phobl ifanc ar gyfer cynghorwyr ac unigolion ac asiantaethau eraill	
Strategaeth Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	a) Datblygu cyfres o ymgyrchoedd byr, â ffocws i godi proffil ac ymwybyddiaeth o rianta corfforaethol ar draws y Cyngor b) Adolygu a therfynu	

		strategaeth Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd Rhianta Corfforaethol i sicrhau ei fod yn cynnwys: manylion cyswllt cynrychiolwyr ar y Gweithgor fel y gall staff ar draws y Cyngor roi eu barn, eu profiadau, awgrymiadau etc gerbron; enghreifftiau o amserlenni staff ar gyfer: datganiadau i'r wasg; newyddlenni (bob 6 mis); cyflwyniadau mewn grwpiau/cyfarfodydd allweddol etc	
Sesiynau Rhianta Corfforaethol Aelod i Aelod	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	a) Fforio model Rotherham o 'Sesiynau Rhianta Corfforaethol Aelod i Aelod' – digwyddiadau fel clinig i annog Cynghorwyr i drafod a rhannu eu gwybodaeth a'u profiadau ymarferol b) Datblygu cynnig (a model) i fwrw'r model	

		hwn ymlaen o fewn Sir Ddinbych a'i gyflwyno i Fforwm Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol c) Cynnal peilot (os ceir cytundeb)	
Datblygu rôl llywodraethwyr ysgol fel rhieni corfforaethol	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	a) Nodi pa aelodau etholedig sydd hefyd yn llywodraethwyr ysgol b) Datblygu papur briffio a chynnal sesiwn hyfforddi gyda'r aelodau hyn i sicrhau eu bod yn cymryd rôl allweddol i sicrhau bod gan ysgolion ddisgwyliadau uchel, a'u bod yn codi safonau cyflawniad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (gweler Pe Bai'n Blentyn i Mi)	
Datblygiad rôl Craffu gyda rhianta corfforaethol	Rhianta corfforaethol rhagweithiol	a) Cyflwyno Strategaeth Rhianta Corfforaethol i bob pwyllgor Craffu a nod pa gyfraniad y gallant	Rhoddwyd cyflwyniadau i bob un o'r pedwar Pwyllgor Craffu

		ei wneud i'w weithredu b) Gweithio gyda'r holl bwyllgorau craffu i nodi eu hanghenion gwybodaeth o ran Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc i sicrhau y gallant graffu gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer y plant hyn c) Sefydlu mecanwaith cadarn i sicrhau nad yw materion rhianta corfforaethol yn dod yn gyfrifoldeb craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig	
Cynlluniau/strategaethau/polisïau'r cyngor yn delio ag anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal/ ymadawyr â gofal		a) Nodi strategaethau/ cynlluniau/ polisïau allweddol (e.e. cynlluniau busnes) ar draws y Cyngor sy'n cynnwys elfen/cyfrifoldeb am ddarpariaeth gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc	

		b) Sefydlu a yw anghenion y Plant sy'n Derbyn Gofal/ ymadawyr â gofal yn cael sylw yn y dogfennau hyn ac os nad ydynt, a ddylent gael sylw c) Sefydlu mecanwaith i sicrhau bod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ac anghenion y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal yn cael eu hymgorffori a'u trin yn holl gynlluniau/bolisïau / strategaethau'r Cyngor yn y dyfodol (lle bo hynny'n briodol) d) Fforio'r posibilrwydd i'r Strategaeth Rianta Corfforaethol fod yn ddogfen allweddol yn fframwaith polisi'r Cyngor	